OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 910 (Cy.93) (C.39)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Dŵr 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 24 Mawrth 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adran 105 o Ddeddf Dŵ r 2003(**1**) ("y Ddeddf"), ar ôl ymghynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chychwyn adran 67 o'r Ddeddf, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Dŵr 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2004.

Y Diwrnod Penodedig

2.—(1) 1 Ebrill 2004 yw'r diwrnod penodedig i'r canlynol ddod i rym —

(a) adran 67 o'r Ddeddf (aelodaeth o bwyllgorau rhanbarthol atal llifogydd yng Nghymru);

(b) adran 69 o'r Ddeddf (grantiau ar gyfer gwaith draenio a systemau rhybudd rhag llifogydd);

(c) paragraff 42 o Atodlen 7 i'r Ddeddf (mân ddiwygiadau canlyniadol) ac adran 101(1) o'r Ddeddf i'r graddau y mae'n ymwneud ag ef;

(ch) Atodlen 9 i'r Ddeddf (diddymiadau a dirymu), i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 222(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵ r 1991(**2**) ac adran 101(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**3**); a

(d) adran 75 o'r Ddeddf (estyn pwerau wrth gefn awdurdod gorfodi).

(2) Caiff y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 1(b) i (d) eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru'n unig.

(**1**) 2003 p.37.
(**2**) 1991 p.57.
(**3**) 1995 p.25.